Adroddiad ar

Gylch Meithrin Cemaes

Ysgol Cemaes
Cemaes

LL67 0LB

Dyddiad yr arolygiad: Ebrill 2026

gan

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

a

Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Cemaes

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Cemaes |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd sesiynol |
| Person(au) cofrestredig | Nia Meacher |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | |
| Person â gofal | Rebecca Griffith |
| Nifer y lleoedd | 13 |
| Ystod oedran y plant | 2.5 i 4 mlwydd oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 2 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Mercher 9.10 tan 12.30 |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers cofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | 22/07/2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 28/04/2026 |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Hysbyswyd y darparwr nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r Rheoliadau. Ni chyflwynwyd hysbysiad, ond mae'r rhain yn cael eu hadnabod fel meysydd i'w gwella, a dylai'r PC/UC roi sylw iddynt.

## Argymhellion

A1 Cryfhau disgwyliadau ymarferwyr wrth hyrwyddo cyfathrebu effeithiol plant drwy'r Gymraeg.

A2 Ehangu ar y cyfleoedd i blant chwarae a dysgu yn fwy annibynnol.

A3 Mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

### Lles: Da

Mae gan blant lais cryf yn y lleoliad. Maent yn cael cyfleoedd addas i wneud dewisiadau a phenderfyniadau am sut i dreulio'u hamser. Mae bron bob plentyn yn archwilio'u hamgylchedd yn ofalus a diogel gan ddewis gweithgareddau sydd o ddiddordeb iddynt yn llwyddiannus. Maent yn gwneud dewisiadau'n addas ac yn manteisio ar y cyfle i symud yn rhydd rhwng yr ardaloedd. Er enghraifft, maent yn penderfynu a ydynt am chwarae dan do neu yn yr ardal awyr agored. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu'n effeithiol ar lafar ac yn mynegi eu hanghenion a'u syniadau'n glir. Er enghraifft, mae plant yn hyderus wrth ofyn am fwy o ddŵr i'w hychwanegu at eu cymysgeddau yn y gegin fwd.

Mae bron bob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac maent yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymdopi'n dda wrth wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr ac yn ymgartrefu'n gyflym wrth gyrraedd. Mae bron bob plentyn yn gyfarwydd â threfniadau'r dydd. Er enghraifft, mae'r plant yn gwybod bod angen golchi a sychu eu dwylo cyn bwyta a brwsio dannedd.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn rhyngweithio'n effeithiol â'i gilydd, gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae bron bob plentyn yn cyd-chwarae â'i gilydd yn dda. Maent yn dilyn rheolau yn llwyddiannus ac yn dangos parch a charedigrwydd naturiol tuag at ei gilydd. Er enghraifft, maent yn gwahodd plant eraill i ymuno yn eu chwarae ac yn cynnig cymorth buddiol, pan fo angen.

Mae bron bob plentyn yn dangos lefelau cadarn o gymhelliant ac annibyniaeth wrth chwarae, yn enwedig pan fyddant yn dilyn eu syniadau eu hunain ac yn arbrofi ag adnoddau yn yr awyr agored. Maent yn manteisio'n dda ar gyfleoedd dysgu ysgogol sy'n eu hannog i archwilio a darganfod.

Mae bron bob plentyn yn ymateb yn dda i gyfleoedd i ddatblygu annibyniaeth. Er enghraifft, yn ystod amser byrbryd, maent yn arllwys diodydd eu hunain ac yn dewis pa fwydydd yr hoffent fwyta.

### Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):

Nid oes adroddiad ar ddysgu'r plant. Y rheswm am hyn yw nad oedd digon o blant tair neu bedair oed yn bresennol adeg yr arolygiad nad ydynt yn derbyn addysg a ariennir yn rhywle arall i allu adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

## Gofal a datblygiad: Da

Mae gan ymarferwyr a’r arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o’u rolau a’u cyfrifoldebau i gadw plant yn ddiogel ac yn iach. Maent yn meddu ar wybodaeth gadarn am sut i amddiffyn plant ac yn gwybod beth i'w wneud os bydd ganddynt unrhyw bryderon. Mae ymarferwyr wedi cwblhau hyfforddiant priodol, ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o’r polisïau a’r gweithdrefnau, gan gynnwys cadw cofnodion cywir o ddamweiniau a digwyddiadau. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr yn cydweithio’n llwyddiannus â’r plant. Maent yn canmol y plant yn rheolaidd ac yn eu cefnogi’n sensitif i ddyfalbarhau â gweithgareddau. Er enghraifft, wrth dorri papur â siswrn, maent yn annog y plant i ganolbwyntio a dal y siswrn yn gywir. Agwedd nodedig o waith y lleoliad yw’r ffordd mae ymarferwyr yn creu awyrgylch cartrefol a gofalgar, sy’n hybu lles a datblygiad y plant. Maent yn dangos caredigrwydd a chynhesrwydd tuag atynt wrth iddynt gyrraedd yn y bore, ac yn fodelau rôl cadarn. O ganlyniad, mae’r plant yn ymddwyn yn dda ac yn datblygu perthnasoedd cadarnhaol.

Mae ymarferwyr yn llwyddo i ddiwallu anghenion bob plentyn, gan gynnwys y rheini sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae gweithdrefnau cadarn ar waith i gefnogi'r plant a'u teuluoedd ac mae gan ymarferwyr adnabyddiaeth dda iawn o’r plant a’r dulliau gorau i’w cefnogi. Maent yn diwallu eu camau nesaf drwy chwarae ac ymestyn eu profiadau archwilio a darganfod yn gadarn. Mae ymarferwyr yn cydweithio’n effeithiol ag asiantaethau allanol, fel athrawon ymgynghorol yr awdurdod lleol, ac yn gweithredu ar gyngor arbenigwyr. O ganlyniad, mae bron bob plentyn yn gwneud cynnydd da yn eu datblygiad.

Mae ymarferwyr yn hyrwyddo iechyd a lles y plant yn effeithiol. Maent yn rhoi sylw cyson i hylendid y plant gan eu hatgoffa’n rheolaidd i olchi eu dwylo ar adegau priodol. Maent yn annog plant i fwyta ac yfed yn iachus a chymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol yn rheolaidd.

## Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da

Mae ymarferwyr yn cynllunio cwricwlwm diddorol a pherthnasol sy’n ystyried diddordebau’r plant yn briodol. Mae ganddynt ddealltwriaeth gadarn o ddatblygiad plant a’r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi. Trwy wrando’n ofalus ar lais y plant, mae ymarferwyr yn llwyddo i gynllunio gweithgareddau sy’n cynnal chwilfrydedd a brwdfrydedd plant yn effeithiol, er enghraifft wrth iddynt arbrofi gyda sbeisys a blodau i greu diod sy’n arogli’n apelgar.

Mae dulliau addysgu effeithiol ymarferwyr yn cymell plant i ymgysylltu'n dda yn eu dysgu. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad medrau, gwybodaeth a dealltwriaeth plant. Mae ymarferwyr yn annog plant i weithio gyda'i gilydd yn bwrpasol gan ddatblygu empathi a'u medrau cymdeithasol yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn annog plant i gydweithio i greu cymeriad o lyfr stori allan o does. Mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd cyson i blant wneud dewisiadau'n gynyddol annibynnol, gan ddewis a dethol offer pwrpasol i gwblhau gweithgareddau. Fodd bynnag, yn rhy aml, mae tueddiad i ymarferwyr or-arwain y dysgu sy'n llesteirio gallu'r plant i ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn cofnodi asesiadau ac arsylwadau o gyflawniadau a chynnydd plant yn effeithiol. Trwy ddiweddariadau dyddiol a sianelau cyfryngau cymdeithasol diogel, mae ymarferwyr yn rhannu'r wybodaeth werthfawr hon yn rheolaidd gyda rhieni a gofalwyr i nodi'r hyn y mae'r plant wedi ei ddysgu ac i ddangos cynnydd dros amser. Mae rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi'r mewnwelediadau hyn i addysg gynnar eu plant.

Mae ymarferwyr yn annog plant i gymryd rhan mewn gweithgareddau sy'n datblygu eu medrau llythrennedd yn bwrpasol. Er enghraifft, drwy ganu rhigymau Cymraeg wrth rolio toes. Er hyn, mae tueddiad i ymarferwyr droi i'r Saesneg yn rhy aml wrth gefnogi gweithgareddau, ac nid yw eu disgwyliadau bob amser yn ddigon uchel i sicrhau bod plant yn clywed Cymraeg raenus yn ddigon rheolaidd. Mae ymarferwyr yn datblygu medrau rhifedd plant yn briodol. Maent yn darparu cyfleoedd cyson i blant ymchwilio, didoli a chyfrifo adnoddau yn y twba tywod yn llwyddiannus.

Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn cynllunio cyfleoedd addas i blant ddatblygu eu medrau digidol. Maent yn darparu ystod briodol o adnoddau digidol perthnasol yn yr ardaloedd i gefnogi eu chwarae a'u dysgu, er enghraifft teclyn siarad, til a cherbyd sy'n cael ei reoli o bell. Mae ymarferwyr yn darparu amrediad o adnoddau addas sy'n caniatáu i'r plant ddatblygu medrau cydbwyso corfforol. O ganlyniad, maent yn hyderus wrth ddefnyddio'r cerbydau cydbwyso gan ddangos ystwythder a chryfder da. Mae medrau modur mân bron bob un o'r plant yn briodol. Er enghraifft, maent yn defnyddio plicr yn hyderus i godi pasta, neu ffyn bwyta i ddidoli reis.

Mae bron bob un o'r plant yn dangos medrau creadigol cadarn. Maent yn gwneud dewisiadau effeithiol am beth i'w ddefnyddio i greu eu campweithiau, er enghraifft wrth ddewis pa goncyrs a lliw paent i'w defnyddio i greu llun o'r Hydref. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad cymdeithasol, moesol, diwylliannol ac ysbrydol y plant yn effeithiol. Maent yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u cynefin yn addas, er enghraifft wrth gymryd rhan yng Ngharnifal Cemaes.

## Yr amgylchedd: Da

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd yn ddiogel, yn lân ac yn cael ei gynnal yn dda. Mae ganddynt drefniadau addas ar gyfer derbyn ymwelwyr i'r lleoliad. O ganlyniad, maent yn hyrwyddo diogelwch a lles plant yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn sicrhau bod plant yn ddiogel trwy eu dealltwriaeth o'r disgwyliadau arnynt, asesiadau risg pwrpasol ac asesiadau risg tân. Maent yn ystyried risgiau yn ymwneud â gweithgareddau ac ymweliadau, ond yn deall pwysigrwydd bod cyfleoedd i blant gymryd risgiau diogel.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod creadigrwydd a llwyddiannau plant yn cael eu dathlu ar draws y lleoliad trwy arddangosfeydd o'u gwaith ar y waliau. Maent yn annog rhieni a gofalwyr i anfon ffotograffau o'r teulu i'r lleoliad i'w harddangos er mwyn i'r plant eu gweld a chyfeirio atynt. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at yr ymdeimlad o berthyn.

Mae arweinwyr yn paratoi ystafell chwarae sy'n gyfforddus a chysurus, wedi'i threfnu'n dda ac yn cynnig cyfleoedd priodol i blant symud o gwmpas yn rhwydd. Maent yn sicrhau bod yr ystafell chwarae yn cynnig ystod eang o weithgareddau ac adnoddau ysgogol, sydd wedi'u lleoli o fewn cyrraedd y plant. Mae hyn yn caniatáu iddynt wneud penderfyniadau a dewisiadau effeithiol am yr hyn y maent eisiau ei ddefnyddio.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod yr ardal chwarae tu allan yn cael ei defnyddio yn ddi-dor, fel estyniad effeithiol i'r amgylchedd dysgu. Mae'r ardal wedi'i threfnu'n briodol i gynnwys cyfleoedd amrywiol i blant archwilio a datblygu medrau, gan gynnwys archwilio yn y gegin fwd ac ardaloedd tywod a dŵr. Yn ogystal, mae adnoddau pwrpasol sy'n cefnogi datblygiad corfforol ac echddygol yn effeithiol, er enghraifft cyfleoedd i chwarae â thoes ac arbrofi ar feiciau. Mae ymarferwyr yn meithrin amgylchedd sy'n hybu datblygiad cymdeithasol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae modd iddynt ymgynnull ar gyfer byrbrydau ar ddodrefn priodol.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod yr ystod eang o adnoddau yn lân ac o ansawdd da. Mae'r rhain yn cynnwys dewis da o adnoddau sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth ac amrywiaeth ddiwylliannol, er enghraifft doliau a llyfrau. Maent yn darparu adnoddau amrywiol a phwrpasol sy'n briodol ar gyfer oedran a cham datblygiad y plant, ac mae'r rhain wedi eu gosod ar lefelau isel. O ganlyniad, mae gan blant fynediad rhwydd at gyfarpar o safon, sy'n eu galluogi i ddewis yn annibynnol a dilyn eu diddordebau'n llwyddiannus. Mae ymarferwyr yn darparu gweithgareddau ar ddathliadau a digwyddiadau megis Blwyddyn Newydd Tsieineaidd a Dydd Gŵyl Dewi, sydd o gymorth i ddyfnhau dealltwriaeth y plant o ddathliadau amrywiol ar draws y byd.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan arweinwyr weledigaeth gadarn ar gyfer sicrhau bod bob plentyn yn hapus a diogel yn y lleoliad. Trwy eu hagweddau cadarnhaol a'u harferion cyson, mae arweinwyr yn creu amgylchedd dysgu gofalgar ble caiff ymarferwyr a phlant eu parchu.

Mae arweinwyr yn angerddol am waith y lleoliad. Mae ganddynt ddisgwyliadau uchel ohonynt eu hunain a'r ymarferwyr. Mae gan arweinwyr berthynas waith gadarn â'r pwyllgor rheoli, ac mae trafodaethau a chyfarfodydd rheolaidd rhyngddynt yn cyfrannu'n werthfawr at gynnig darpariaeth a gofal cadarn. Ceir datganiad o ddiben clir sy'n rhoi darlun cywir o'r lleoliad, sy'n galluogi rhieni a gofalwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch addasrwydd y lleoliad ar gyfer eu plentyn.

Mae arweinwyr yn darparu arweinyddiaeth gyson ac effeithiol gan ymateb yn hyblyg i unrhyw heriau. Maent yn gweithredu systemau recriwtio diogel. Mae'r pwyllgor ac arweinwyr yn trefnu goruchwyliaeth staff ac arfarniadau blynyddol priodol sy'n nodi targedau defnyddiol ar gyfer gwella. Fodd bynnag, nid yw'r arfarniadau bob amser yn cynnwys cyfleoedd i drafod anghenion ymarferwyr, nac ychwaith eu hanghenion dysgu proffesiynol yn ddigon rheolaidd sy'n golygu nad yw'r lleoliad yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Mae arweinwyr yn adolygu eu polisïau yn unol â gofynion ac yn eu gweithredu'n dda.

Mae gan arweinwyr weithdrefnau effeithiol ar gyfer gwerthuso gwaith y cylch. Maent yn cydweithio'n effeithiol ag athrawes arbenigol yr awdurdod lleol i adnabod cryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w datblygu. Yn ogystal, mae arweinwyr yn cydweithio'n fwriadus â'r gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol (ADY) er mwyn gwneud addasiadau amserol i'w ddarpariaeth, pan fo angen. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a deilliannau'r plant.

Mae arweinwyr yn gwneud defnydd effeithiol o'r gyllideb a grantiau, gan gynnwys y grant datblygu disgyblion y blynyddoedd cynnar, i fynd i'r afael â blaenoriaethau gwella a diwallu anghenion plant. Er enghraifft, trwy gyllido gwelliannau yn yr ardal allanol, darparwyd adnoddau deniadol o ansawdd da sy'n cefnogi dysgu'r plant ac yn cyfoethogi eu profiadau'n llwyddiannus.

Mae gan arweinwyr a'r ymarferwyr berthynas dda â rhieni a gofalwyr. Maent yn cyfathrebu'n rheolaidd drwy sgyrsiau dyddiol, hysbysebu ar gyfryngau cymdeithasol ac ar lwyfannau digidol pwrpasol. Mae hyn yn sicrhau bod rhieni a gofalwyr yn derbyn gwybodaeth fuddiol ac amserol am gynnydd a lles eu plant. Mae arweinwyr yn cychwyn adeiladu perthynas cefnogol â'r ysgol lle lleolir y ddarpariaeth. Mae ganddynt drefniadau pontio addas ar waith, sy'n cefnogi plant yn bwrpasol wrth iddynt symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu haddysg.

Mae arweinwyr ac ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn dechrau teimlo'n rhan o'u cymuned leol. Maent yn cynnal taith gerdded Nadolig o amgylch y pentref gan ganu carolau yn y siopau lleol. Mae hyn yn codi ymwybyddiaeth y plant o'r byd o'u cwmpas. Mae arweinwyr yn ymwybodol o'r angen i gryfhau'r agwedd hon ymhellach.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 02/07/2026